# Asesiad Strwythuredig 2023—Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 4075A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Am yr adroddiad hwn | 4 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Argymhellion | 7 |
| Adroddiad manwl | |
| Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd | 10 |
| Systemau sicrwydd corfforaethol | 16 |
| Dull cynllunio corfforaethol | 21 |
| Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol | 24 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1—dulliau archwilio | 28 |
| Atodiad 2—y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol | 30 |
| Atodiad 3—ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio | 34 |

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2023 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, mae cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yr oedd prif bwyslais y gwaith, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar dryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y Bwrdd, systemau sicrwydd corfforaethol, dull cynllunio corfforaethol, a dull rheoli ariannol corfforaethol. Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros sawl blwyddyn. Mae hefyd wedi ei lywio gan:

- Orchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arferion da perthnasol eraill

Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Medi 2023 a mis Tachwedd 2023. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

## Canfyddiadau allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar y cyfan i sicrhau llywodraethu da sydd wedi cryfhau ers ein hadolygiad diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella'r trefniadau hyn ymhellach ac mae angen pwyslais penodol ar allu'r cyhoedd i gael gafael ar bolisïau, gan ganolbwyntio ar ofal sylfaenol, gwrando ar gleifion a datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

7 Canfuom fod **y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn gweithredu'n dda ar y cyfan, mae ymrwymiad i wella cydlynoldeb a thryloywder ond mae angen gwelliant o hyd o ran gallu'r cyhoedd i gael gafael ar rai dogfennau allweddol. Mae papurau y Bwrdd a phwyllgorau o ansawdd da ar y cyfan, gyda defnydd cynyddol o ddata a graffeg ond mae angen cryfhau'r oruchwyliaeth ar anghenion gofal sylfaenol a gellid gwneud mwy i gael sbectrwm ehangach o brofiad y claf**.

8 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes mewn modd agored a thryloyw, ac mae cyfleoedd i wella'r trefniadau ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o'i wefan, ond gellid gwneud mwy i sicrhau bod y cyfryngau cymdeithasol a llwybrau cyfathrebu eraill yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo ac annog ymgysylltiad â busnes y Bwrdd. Byddai hefyd yn fuddiol pe byddai cofnodion nad ydynt wedi eu cadarnhau ar gael yn gyhoeddus yn fuan ar ôl cyfarfodydd, er mwyn osgoi arosiadau hir rhwng cyfarfodydd pwyllgor.

9 Mae trefniadau da ar waith ar gyfer diweddaru a monitro cydymffurfiaeth â fframweithiau rheoli craidd, er bod cyfleoedd o hyd i gynyddu hygyrchedd cyhoeddus polisïau ac i sicrhau bod y fersiynau diweddaraf o ddogfennau yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithio'n dda, gyda lefel cytbwys a phriodol o waith craffu. Mae papurau o safon dda yn gyffredinol, ac mae data a graffeg yn cael eu defnyddio fwyfwy i gyfleu gwybodaeth. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd elwa o oruchwylio Gofal Sylfaenol fwyfwy er mwyn bod yn sicr ei fod yn canolbwyntio ar feysydd sy'n cael effaith sylweddol ar ei boblogaeth.

10 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i wrando ar gleifion a'r staff, ond gellid gwneud mwy i gael sbectrwm ehangach o sylwadau. Mae angen i'r Bwrdd a'r pwyllgorau glywed profiadau cadarnhaol a negyddol. Er ei bod ailgyflwyno teithiau cerdded yn gam cadarnhaol, mae lle i'r Bwrdd Iechyd ffurfioli'r broses hon. Mae'r Bwrdd yn gydlynol yn sgil cyfnod o fflwcs ac mae'n dangos ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus, er bod lle o hyd i gryfhau effeithiolrwydd y pwyllgorau.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

11 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn dal i fod heb Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diweddaredig, ac o ganlyniad, ni ellir sicrhau bod y risgiau'n gydnaws er bod trefniadau rheoli risgiau. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad diweddaredig yn gwneud gwell defnydd o ddata, ond mae angen craffu ar yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Fframwaith Ansawdd Clinigol a'r broses o olrhain argymhellion archwilio yn fwy cyson**.

12 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei ddiweddariad i'w Fframwaith Sicrwydd Bwrdd eto, sef y dull o ddod â'r holl wybodaeth berthnasol ynghyd am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol y sefydliad. Mae hwn yn fwlch llywodraethu parhaus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd ac wedi datblygu'r holl elfennau perthnasol, ond nid yw hyn wedi datblygu'n fframwaith trosfwaol perthnasol eto. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r gweithgaredd hwn.

13 Mae trefniadau rheoli risgiau da, a chynhaliwyd y broses o adnewyddu'r gofrestr risgiau corfforaethol. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau fod ei broses o bontio o gadw cofrestrau risgiau ar daenlenni i'w cadw ar feddalwedd risg penodol yn digwydd yn gyflym. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau rheoli perfformiad cadarn ac mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig diweddaredig yn caniatáu i heriau a chynnydd gael eu hadnabod yn rhwydd.

14 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i oruchwylio'r broses o weithredu'r dyletswyddau gonestrwydd ac ansawdd newydd ac i barhau i oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch. Ond mae bwlch yn y broses o oruchwylio Cynllun Gweithredu y Fframwaith Ansawdd Clinigol na chafwyd ers rhai misoedd. Mae trefniadau da ar gyfer olrhain y cynnydd hefyd o'i gymharu ag argymhellion archwilio, fodd bynnag, gallai oedi wrth gyflwyno'r olrheiniwr argymhellion i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gyfyngu ar amseroldeb gwybodaeth.

## Dull cynllunio corfforaethol

15 Canfuom, **er bod trefniadau cynllunio corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn dda, nad yw wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy**.

16 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o ddatblygu ei gynlluniau. Mae'r strategaeth ddeng mlynedd a ddefnyddiwyd i bennu'r fframwaith ar gyfer y cynllun tair blynedd yn parhau i fod ar waith. Gwnaed cynnydd er mwyn cynyddu cyfranogiad Aelodau Annibynnol o ran llunio cynlluniau a strategaethau, a defnyddir sesiynau datblygu'r Bwrdd yn dda. Fodd bynnag, er gwaethaf y trefniadau hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2023–2026. Yn hytrach, mae ganddo Gynllun Integredig ar gyfer 2023–2026 ac mae'n gweithio yn unol â Chynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023–24 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

17 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith o hyd i fonitro'r broses o gyflawni ei gynlluniau a'i strategaethau, gyda'r Adroddiadau Perfformiad Integredig

adnewyddedig a ddarperir bob yn ail mis ac Adroddiadau Cynnydd y Cynllun Integredig Chwarterol sy’n rhoi sicrwydd cadarn i’r Bwrdd a’i bwyllgorau. Fodd bynnag, mae lle o hyd, i’r Bwrdd Iechyd wneud cysylltiadau cliriach rhwng ‘Canlyniadau Powys’ yn ei gynllun tair blynedd a’r effeithiau mesuradwy yn ei Gynllun Cyflawni Blynyddol.

### Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

18 Canfuom, **er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli a monitro ei gyllid, fod ei sefyllfa ariannol yn fwyfwy heriol.**

19 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022–23 ac mae’n rhagweld y bydd yn methu â’u bodloni eto yn 2023–24. Gan weithio i gyfanswm rheoli diffyg diwygiedig o £12 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai’n cyflawni ei darged rheoli diwedd y flwyddyn ym Mis 10.

20 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio ariannol cadarn, ac ymgysylltir â’r Bwrdd yn dda. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gofyn am darged arbedion o £7.5 miliwn. Ym Mis 10, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau arbed posibl gwerth cyfanswm o £11.5 miliwn, er y rhagwelwyd mai dim ond £5.8 miliwn oedd yr effeithiau cylchol.

21 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Mae trefniadau cadarn yn parhau i fod ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol hefyd, gydag adroddiadau cynhwysfawr sy’n caniatáu i heriau a risgiau gael eu hadnabod yn rhwydd.

## Argymhellion

22 Manylir ar yr argymhellion sy’n deillio o’n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Mae’r rhain yn cynnwys amserlenni a’n hasesiad blaenoriaeth. Crynhoir ymateb y Bwrdd Iechyd i’n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2023**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Tryloywder busnes y Bwrdd**<br>A1 Dylai’r Bwrdd Iechyd wneud yr hyn a ganlyn:<br>1.1. hyrwyddo holl gyfarfodydd y Bwrdd a digwyddiadau eraill, megis y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd a dulliau cyfathrebu eraill; ac |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| 1.2. | sicrhau bod cofnodion nad ydynt wedi eu cadarnhau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl cyfarfodydd er mwyn hybu tryloywder mwy amserol i fusnes y Bwrdd Iechyd. |
| **Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion, defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff** | |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno straeon cleifion i Bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch er mwyn galluogi sbectrwm ehangach o brofiadau cadarnhaol a negyddol i gael eu clywed. |
| **Teithiau Cerdded y Bwrdd** | |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau teithiau cerdded y bwrdd drwy:<br>3.1. ddatblygu blaenraglen sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ac sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau y Bwrdd Iechyd; a<br>3.2. datblygu fframwaith sy'n nodi sut y dylai'r teithiau cerdded weithredu, a'r dulliau ar gyfer adrodd themâu allweddol. |
| **Effeithiolrwydd y pwyllgorau** | |
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal ei adolygiadau effeithiolrwydd pwyllgorau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus yn y ffordd y mae'r pwyllgorau'n gweithredu. |
| **Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol.** | |
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu'r cyflymder y mae risgiau a gofnodir ar daenlenni ar hyn o bryd yn cael eu symud drosodd i fodiwl risg Datix. |
| **Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau.** | |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â Chynllun Gweithredu Fframwaith Ansawdd Clinigol 2020–23 yn amserol drwy gydol y flwyddyn. |

**Argymhellion**

**Dull corfforaethol o olrhain argymhellion**

A7 Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael yr olrheiniwr argymhellion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

23 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

24 Canfuom fod **y Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n dda ar y cyfan, ac mae ymrwymiad i wella cydlynoldeb a thryloywder, ond mae angen gwelliant o hyd o ran gallu'r cyhoedd i gael gafael ar rai dogfennau allweddol. Mae papurau y Bwrdd a phwyllgorau o ansawdd da ar y cyfan, gyda defnydd cynyddol o ddata a graffeg ond mae angen cryfhau'r oruchwyliaeth ar anghenion Gofal Sylfaenol a gellid gwneud mwy i gael sbectrwm ehangach o brofiad y claf**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

25 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn yn y Bwrdd a'r pwyllgor:

- cyfarfodydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd;
- busnes a phenderfyniadau a wneir yn dryloyw;
- cofnodion cyfarfodydd sydd ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

26 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes mewn modd agored a thryloyw, a bod cyfleoedd i wella'r trefniadau ymhellach**.

27 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol ac maent yn cael eu ffrydio'n fyw, ac mae recordiadau ar gael i'w gweld drwy wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan wedyn. Mae pob cyfarfod pwyllgor yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol hefyd. Nid yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu ffrydio'n fyw, ond mae'r cyhoedd yn gallu gwneud cais i fod yn bresennol yn rhithiol drwy e-bost. Cedwir eitemau a drafodir yng nghyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau i'r isafswm lleiaf posibl ac fe'u cedwir ar gyfer eitemau sensitif yn unig. Nodir eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd preifat ar ddiwedd agenda cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd.

28 Er bod cyfarfodydd yn cael eu hyrwyddo drwy'r wefan, gellid gwneud mwy drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu eraill i annog cyfranogiad y cyhoedd ac ymwybyddiaeth o fusnes y Bwrdd Iechyd. Er bod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ni hysbysebir unrhyw un o gyfarfodydd eraill y Bwrdd yn y modd hwn **(Argymhelliad 1.1).**

29 Mae cofnodion cyfarfodydd ar gael ar agendâu dilynol, ac mae'r Cadeirydd yn adolygu'r rhain fel eitem sefydlog er cywirdeb a naws. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella tryloywder busnes y Bwrdd ymhellach. Gyda rhai pwyllgorau nad ydynt y cwrdd yn amlach nag ychydig o weithiau bob blwyddyn,

byddai sicrhau bod cofnodion nad ydynt wedi eu cadarnhau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl cyfarfodydd yn hybu tryloywder busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn fwy amserol **(Argymhelliad 1.2).**

30 Fel arfer, mae papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gael i'r cyhoedd saith niwrnod o flaen cyfarfodydd, ond daethom o hyd i enghreifftiau[1] lle na chyhoeddwyd papurau pwyllgor o fewn cyfnod o saith niwrnod. Rydym yn deall mai cyfyngiadau adnoddau yw'r rheswm dros hyn.

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

31 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn, yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i'r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

32 Canfuom fod **trefniadau da ar waith ar gyfer diweddaru a monitro cydymffurfiaeth â fframweithiau rheoli craidd, er bod cyfleoedd o hyd i gynyddu hygyrchedd cyhoeddus polisïau ac i sicrhau bod y fersiynau diweddaraf o ddogfennau yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd**.

33 Mae Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ffurfiol, cyfoes ar waith. Cymeradwyodd y Bwrdd y rhain a'r Cynllun Dirprwyo ym mis Medi 2023. Mae'r ddogfen Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Bwrdd Iechyd ac mae'n adlewyrchu'r trefniadau interim ers secondiad y Prif Weithredwr[2]. Ar adeg ein gwaith, fodd bynnag, roedd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar y wefan yn dwyn dyddiad Mawrth 2021. Maent wedi eu diweddaru i'r fersiwn ddiweddaraf ers hynny (gweler **Atodiad 2 A5b 2022).** Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi pwysleisio nad oes gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid na Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nad yw'n bwriadu cael y grwpiau hyn er ei fod yn cyfeirio atynt o hyd ar ei wefan (gweler **Atodiad 2 A8 2022**).

34 Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ystyried a chymeradwyo Cofrestr Buddiannau 2023–24 ym mis Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei

[1] Cyfarfod Cyd-bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant, Hydref 2023; Y Bwrdd, Gorffennaf 2023; Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Gorffennaf 2023, Pwyllgor Eithriadol y Gweithlu a Diwylliant, Gorffennaf 2023; Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch, Gorffennaf 2023.

[2] Ym mis Ebrill 2023, cafodd y Prif Weithredwr ei secondio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am gyfnod o chwech i naw mis; yn sgil hynny fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr parhaol ym mis Tachwedd 2023.

gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Hefyd, dim ond ar Aelodau'r Bwrdd y mae'r gofrestr hon yn canolbwyntio. Er mwyn gwella tryloywder, efallai y byddai'r Bwrdd Iechyd yn dymuno ystyried sut mae'n cipio buddiannau uwch-staff eraill yn unol â Byrddau Iechyd eraill. Fel y nodwyd y llynedd, mae polisïau y Bwrdd Iechyd (clinigol ac anghlinigol) yn dal heb fod ar gael i'r cyhoedd **(**gweler **Atodiad 2 A5a 2022).** Er bod gwefan y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio atynt, dim ond y rhai sydd â chyfrif GIG Cymru sy'n gallu cael gafael arnynt.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

35 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n cael eu cadeirio'n dda, sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n cadw at ymddygiad y cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o ran craffu, cefnogaeth a her; a
- pwyllgorau sy'n cael sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu arno, ac sy'n rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

36 Canfuom fod **y Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n dda gyda lefel cytbwys a phriodol o waith craffu. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd elwa o oruchwylio Gofal Sylfaenol fwyfwy er mwyn bod yn sicr ei fod yn canolbwyntio ar feysydd sy'n cael effaith sylweddol ar ei boblogaeth**.

37 Mae'r pwyllgorau bellach wedi eu hen sefydlu yn dilyn newidiadau i'w strwythur yn 2021. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y Bwrdd Iechyd yn bodloni amlder gofynnol y cyfarfodydd a nodir yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer rhai pwyllgorau. Er enghraifft, mae'r Cylch Gorchwyl presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth gwrdd bob chwarter o leiaf. Fodd bynnag, ar gyfer 2023–24, dim ond tri chyfarfod fydd yn cael eu cynnal oherwydd cyfarfod sydd wedi ei ohirio. Ceir yr un peth gyda'r Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch a ddylai gwrdd pob deufis, ond ar gyfer 2023–24, dim ond pedair gwaith y bydd pwyllgor hwn yn cwrdd. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried a yw'r cyfarfodydd a drefnwyd yn ddigonol i fodloni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. Os felly, efallai y bydd angen newid amlder y cyfarfodydd.

38 Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Cadeirydd newydd wedi dod â mwy o bwyslais ar atgyfnerthu swyddogaethau a chyfrifoldebau y Bwrdd a'i bwyllgorau, yn rhan o raglen datblygu'r Bwrdd ehangach. Mae hyn wedi cryfhau natur ac amlder yr her gan Aelodau Annibynnol mewn cyfarfodydd.

39 Mae agendâu pwyllgorau yn aeddfed ac mae Cadeiryddion yn derbyn cyfrifoldeb am eu hagendâu, ac mae mireinio agendâu yn broses barhaus. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, a gwnaethom arsylwi lefelau mwyfwy priodol o waith craffu, cefnogaeth a her. Darperir adroddiadau sicrwydd Cadeiryddion i'r Bwrdd gan bob un o'r pwyllgorau, sy'n rhoi trosolwg da o fusnes allweddol y pwyllgor a materion i'w huwchgyfeirio. Ers ein hadroddiad blaenorol, mae fforwm Cadeiryddion wedi ei sefydlu sy'n cynnwys holl Gadeiryddion y Pwyllgor, y Prif Weithredwr, a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r trefniad hwn ar gam cynnar o'i ddatblygiad ac nid oes ganddo Gylch Gorchwyl, ond mae ganddo Ddatganiad o Ddiben ac agenda. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio y bydd y trefniad hwn yn helpu i ysgogi sicrwydd ar draws pwyllgorau ac yn cyfrannu at ddatblygiad y Bwrdd, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud pa mor effeithiol a fu'r trefniad hwn (gweler **Atodiad 2 A6a ac A6b 2022)**.

40 Mae agendâu ac eitemau cynllun gwaith yn cyd-fynd yn fras â strwythurau y pwyllgor, cylch gorchwyl y pwyllgor a'r gofrestr risgiau corfforaethol. Fodd bynnag, nid oes Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ar waith byth. O ganlyniad i hynny, mae'n anodd i'r Bwrdd fod yn sicr bod strwythur y pwyllgor sydd ar waith yn cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, a bod cynlluniau gwaith yn adlewyrchu'r meysydd hyn.

41 Un enghraifft o ddiffyg aliniad yw goruchwyliaeth gyfyngedig y Bwrdd Iechyd o wasanaethau gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Mae hyn er gwaethaf gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n rhan sylweddol o ddarpariaeth y Bwrdd Iechyd. Dim ond un eitem sydd wedi ei rhestru o dan thema 'Gofal Sylfaenol' ar gynllun gwaith y Bwrdd ar gyfer 2023–24 a dim ond pedair eitem sydd gan y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ar gyfer 2023–24. Rydym yn cynnal adolygiad gofal sylfaenol dilynol ar hyn o bryd, a byddwn yn adrodd arno yn gynnar yn 2024.

## Ansawdd ac amseroldeb papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau

42 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael gwybodaeth amserol o ansawdd uchel sy'n cefnogi gwaith craffu effeithiol, sicrwydd, a'r broses o wneud penderfyniadau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a sicrwydd.

43 Canfuom fod **papurau o safon dda yn gyffredinol, a bod data a graffeg yn cael eu defnyddio fwyfwy i gyfleu gwybodaeth**.

44 Mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i fod o safon dda, ac mae materion blaenorol gydag amseroldeb wedi eu datrys i raddau helaeth (er nad yw agendâu yn cael eu cyhoeddi saith niwrnod ymlaen llaw bob amser). Ers y llynedd, mae'r amser a dreulir yn cyflwyno eitemau wedi ei adolygu. Treulir mwy o amser yn trafod ac yn craffu ar y pynciau ar agendâu erbyn hyn. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn clywed mwy gan staff gweithredol bellach, a chlywsom sut mae hyn

yn darparu mewnwelediadau defnyddiol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn dal i gael eu dwyn i gyfrif, ond mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael golwg mwy cyflawn o'r gweithgarwch. Mae adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gwneud mwy o ddefnydd o dueddiadau, data, a graffeg i gyfleu gwybodaeth. Er enghraifft, mae adroddiadau ar Ofal Iechyd Parhaus a Chyflog Amrywiol i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad yn cynnwys gwybodaeth weledol i gyfleu canfyddiadau.

45 Mae Aelodau Annibynnol yn gymesur o ran yr hyn y maent yn gofyn amdano gan swyddogion. Mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn gallu dangos datblygiad parhaus mewn ymateb i anghenion y Bwrdd ynghylch ansawdd ac amseroldeb papurau pwyllgorau. Fodd bynnag, mae lle o hyd i ddangos yn fwy amlwg i ba raddau y mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn cael ei hystyried yn rhan o bapurau a thrafodaethau dilynol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn ffordd ystyrlon i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol ac i hybu gwelliant.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

46 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff.

47 Canfuom fod **y Bwrdd wedi ymrwymo i wrando ar gleifion a'r staff, ond y gellid gwneud mwy i gael sbectrwm ehangach o sylwadau**.

48 Mae'r Bwrdd yn parhau i gael straeon cleifion sy'n rhoi cipolwg defnyddiol ar brofiadau unigol. Er bod straeon yn y Bwrdd yn tueddu i fod yn ganmoliaethus ac yn gadarnhaol, mae rhai Aelodau Bwrdd wedi adlewyrchu a yw'r sbectrwm llawn o brofiadau cleifion yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd mewn gwirionedd. Mae cyfleoedd ar gael i'r Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch glywed straeon cleifion hefyd **(Argymhelliad 2)**.

49 Mae Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yn cael yr Adroddiad Ansawdd Integredig sy'n cynnwys gwybodaeth am brofiad y claf. Er bod system sylwadau cleifion newydd (CIVICA) wedi ei rhoi ar waith, mae adnoddau cyfyngedig y Bwrdd Iechyd yn effeithio ar ei allu i wireddu llawn botensial y system. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai maes sy'n datblygu yw hwn, bydd angen iddo asesu sut mae gwybodaeth am brofiad y claf yn cael ei chipio'n gadarn mewn ffordd gytbwys i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

50 Mae'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant bellach yn clywed yn gyfnodol gan y staff (gweler **Atodiad 2 A7 2022**). Mae sylwadau gan sioeau teithiol y staff ac arolygon

Hinsawdd Tîm[3] hefyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant, ac yn ddiweddar craffwyd ar gynllun gweithredu i gefnogi fframwaith newydd 'Codi Llais heb Ofn' mewn sesiwn ar y cyd rhwng y Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant, a Phwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch.

51 Mae Aelodau Annibynnol bellach yn cynnal teithiau cerdded o amgylch safleoedd y Bwrdd Iechyd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o heriau a chyfleoedd i gleifion a'r staff (gweler **Atodiad 2 A7 2022**). Mae hyn yn cynnwys treulio amser gyda meysydd gwasanaeth megis meddygon teulu er mwyn deall taith y claf. Mae hyn yn welliant sylweddol yn nhrefniadau y Bwrdd Iechyd er mwyn helpu Aelodau Annibynnol i ddeall profiad y claf a'r staff, a helpu i driongli gwybodaeth a gyflwynir yn y Bwrdd a'r pwyllgorau.

52 Er mwyn sicrhau'r effaith a'r budd mwyaf posibl o deithiau cerdded, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach drwy ddarparu blaenraglen teithiau cerdded sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ac sy'n cwmpasu amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Hefyd, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu fframwaith sy'n nodi sut y dylai'r teithiau cerdded weithredu, a'r dull ar gyfer adrodd themâu allweddol **(Argymhelliad 3)**.

## Cydlyniant y Bwrdd a'i ymrwymiad i welliant parhaus

53 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda fframwaith o uwch-arweinwyr sydd â'r capasiti, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus; a
- rhaglen datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd perthnasol sydd ar waith.

54 Canfuom fod **y Bwrdd yn gydlynol yn sgil cyfnod o newid a'i fod yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus, er bod lle o hyd i gryfhau effeithiolrwydd y pwyllgorau**.

55 Mae'r Bwrdd yn gweithio ar y cyd â phortffolio amrywiol o sgiliau a phrofiad. Er bod bylchau yn bodoli mewn swyddogaethau Aelodau Annibynnol, mae'r rhain wedi eu lliniaru fel y bo hynny'n bosibl. Ers i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg blaenorol ymddeol ym mis Mai 2023, bu bwlch hirsefydlog ar y Bwrdd am Aelod Annibynnol dros gyllid, sydd wedi bod yn anffodus o ystyried y pwysau ariannol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi arbenigwr ariannol i ddarparu cymorth i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformio, yn ystod y broses o recriwtio Aelod Annibynnol

[3] Gofynnwyd i'r staff gynnal arolwg 32 cwestiwn ac iddo chwe thema: Diben ac Amcanion; Atebolrwydd; Llesiant; Diogelwch Seicolegol; Dysgu ac Arloesedd; Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar y Cyd.

parhaol. Mae bwlch arall yn bodoli yn y swydd Aelod Annibynnol (Ystadau). Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei sgiliau ar draws y Bwrdd yng ngoleuni ei amcanion strategol a meysydd sicrwydd allweddol ar hyn o bryd er mwyn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

56 Mae newidiadau yn y tîm Gweithredol wedi eu rheoli'n dda. Y llynedd, gwnaethom adrodd bod y Bwrdd Iechyd yn dal sawl penodiad interim. Yn dilyn secondiad y Prif Weithredwr ym mis Ebrill 2023, gwnaed penodiadau interim ychwanegol. Penododd y Bwrdd:

- y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategaeth, Partneriaethau a Gofal Sylfaenol fel Prif Weithredwr Interim;
- y Cyfarwyddwr Cyllid, TG a Gwybodaeth fel y Dirprwy Brif Weithredwr Interim.

57 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu gwneud rhai penodiadau parhaol ar draws y tîm Gweithredol. Mae cynnydd ar y gweill i recriwtio'n barhaol i swyddogaeth y Prif Weithredwr hefyd **(**Gweler **Atodiad 2 A10 2022).** Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Cadeirydd a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd y mae'r ddau ohonynt wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant a datblygiad y Bwrdd.

58 Mae llawer o waith wedi ei wneud yn fewnol ar ddatblygiad y Bwrdd. Mae sesiynau Datblygu'r Bwrdd wedi annog hunanfyfyrio i ddeall, ymhlith pethau eraill, dysgu o heriau llywodraethu mewn Byrddau Iechyd eraill a dulliau gweithredu sy'n cefnogi gweithio mewn tîm integredig. Gwnaed cefnogaeth unigol i Aelodau Annibynnol hefyd, a chynigwyd cwrs cynefino corfforaethol i aelodau newydd. Er inni glywed y byddent yn elwa ar gwrs cynefino wedi ei addasu sy'n caniatáu iddynt gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu.

59 Mae gan Raglen Datblygu'r Bwrdd ystod amrywiol o sesiynau cyfarwyddo ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod gan gynnwys 'Effeithiolrwydd y Bwrdd' a 'Chraffu, Her a Sicrwydd'. Nodwyd yn flaenorol fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Ebrill 2022, a oedd hefyd yn cynnwys adolygiad eang o'r pwyllgorau yn dilyn newidiadau i strwythur y pwyllgorau yn 2021. Roedd adolygiadau effeithiolrwydd pwyllgorau i fod i gael eu cynnal yn gynharach yn 2023, ond nid yw'r rhain wedi digwydd eto (**Argymhelliad 4**) (gweler **Atodiad 2 A9 2022**). Ar adeg ein gwaith, roedd cyfleoedd hefyd yn dal i fodoli i gynnwys amser ar ddiwedd agendâu i ganiatáu ystyriaethau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau (gweler **Atodiad 2 A9b 2022**).

# Systemau sicrwydd corfforaethol

60 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

61 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn dal i fod heb Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diweddaredig, ac o ganlyniad, ni ellir sicrhau bod y risgiau'n gydnaws er bod trefniadau rheoli risgiau. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad diweddaredig yn**

**gwneud gwell defnydd o ddata, ond mae angen craffu ar yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Fframwaith Ansawdd Clinigol a'r broses o olrhain argymhellion archwilio yn fwy cyson**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol

62 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddaru, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw.

63 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn dal i fod heb Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diweddaredig sy'n mapio'r holl gyfleoedd a'r risgiau i gyflawni amcanion strategol, yn nodi bylchau mewn sicrwydd, ac yn hysbysu cynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau**.

64 Gwnaethom adrodd yn 2021 ac yn 2022 nad oedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn strategaeth y Bwrdd Iechyd ac nad oedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd ers mis Ionawr 2020. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd erbyn 31 Mawrth 2022, ond mae hyn yn dal i fod heb ei wneud (gweler **Atodiad 2 A3 2022**).

65 Mae diffyg Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd diweddaredig yn fwlch allweddol o ran sicrhau bod risgiau i gyflawni strategaeth y Bwrdd Iechyd yn cael eu nodi'n glir, bod mapio sicrwydd priodol wedi digwydd er mwyn nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn sicrwydd, a bod rheolaethau ar waith i liniaru'r risgiau. Ym mis Mehefin 2023, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad o'r broses Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac mae'n rhoi sicrwydd cyfyngedig ar amcan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn yr adroddiad. Roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd drafft i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023, ond nid yw hyn wedi digwydd.

66 Er ein bod yn cydnabod bod gwaith wedi ei wneud i sicrhau bod elfennau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar waith, mae angen dod â'r rhain ynghyd mewn un fframwaith cydlynol i gryfhau system sicrwydd y Bwrdd.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol

67 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar risgiau corfforaethol.

68 Canfuom, **er bod trefniadau rheoli risgiau ar waith, fod risgiau y Bwrdd Iechyd yn dal heb gael eu cysoni â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd diweddaredig, a bod angen diweddaru systemau cofnodi risgiau ar frys**.

69 Ym mis Tachwedd 2022 y cafodd Fframwaith Rheoli Risgiau a Pharodrwydd i Dderbyn Risg y Bwrdd Iechyd eu diweddaru a'u cymeradwyo gan y Bwrdd ddiwethaf ac ym mis Tachwedd 2023 y cawsant eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae Parodrwydd i Dderbyn Risg y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Yn ei adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae adroddiad Archwilio Mewnol mis Mehefin 2023 yn rhoi sicrwydd cyffredinol rhesymol.

70 Mae'r Fframwaith Rheoli Risgiau yn nodi y dylai'r risgiau a gynhwysir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol fod yn gydnaws â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i fod yn anghyfredol. Mae hyn yn creu bwlch wrth lywodraethu risg.

71 Adolygodd y Bwrdd Iechyd ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gynnar yn 2023 er mwyn adnewyddu'r risgiau cyfredol a sicrhau cysondeb â Chynllun Integredig diweddaredig 2023–2026. Arweiniwyd yr adolygiad hwn gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol mewn cydweithrediad ag Arweinwyr Gweithredol. Cynhaliwyd gweithdai gweithredol a sesiynau Datblygu'r Bwrdd i ysgogi ymgysylltiad. Adroddwyd yr adolygiad i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023.

72 Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn parhau i gael ei hystyried ym mhob cyfarfod Bwrdd ac amlygir risgiau sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiadau clawr er hwylustod. Cyflwynir Cofrestrau Risgiau y Pwyllgor yn y mwyafrif o gyfarfodydd Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch a than yn ddiweddar roeddent yn cael eu cyflwyno ym mhob Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant, fodd bynnag, nid yw'r gofrestr risgiau wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant ers mis Mai 2023. O ystyried bod recriwtio a chadw yn risg sylweddol i'r Bwrdd Iechyd, mae'n ymddangos yn ddoeth ystyried a yw amledd y trefniad hwn yn ddigonol.

73 Mae'r Grŵp Risg a Sicrwydd wedi ei ailsefydlu erbyn hyn, a bwriedir i'r grŵp hwn chwarae rhan ehangach wrth edrych ar batrymau risg ar draws cofrestrau risg. Mae'r system cofnodi risgiau yn un maes y mae angen ei wella. Mae risgiau y Bwrdd Iechyd yn cael eu cofnodi ar daenlenni ar hyn o bryd, sy'n gofyn am asesiad â llaw ar draws cyfarwyddiaethau. Mae rhywfaint o gynnydd o ran symud y risgiau hyn i fodiwl meddalwedd Datix diweddaredig, ond mae angen i hyn ddigwydd yn gyflym. Byddai hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd ddal yr holl risgiau yn ganolog, gan wneud sgorio risgiau yn haws a sicrhau cysondeb â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol diweddaredig yn fwy tryloyw **(Argymhelliad 5)** (gweler **Atodiad 2 A4 2022**).

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r perfformiad sefydliadol

74 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

75 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau rheoli perfformiad cadarn a bod yr Adroddiad Perfformiad Integredig diweddaredig yn caniatáu i heriau a chynnydd gael eu hadnabod yn rhwydd.**

76 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd ar gyfer rheoli perfformiad. Rhoddwyd sgôr sicrwydd sylweddol ar gyfer rheoli ac adrodd perfformiad mewn adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2023. Cymeradwywyd y Bwrdd y Fframwaith Rheoli Perfformiad Integredig diwygiedig ym mis Medi 2022 ac mae'n ymgorffori Fframwaith Sicrwydd Comisiynu y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cwmpasu cyfnod 2022–2026 ag adolygiad blynyddol. Mae hefyd yn gydnaws â Fframwaith Perfformiad GIG Cymru, gan gynnwys blaenoriaethau gweinidogol. Mae dulliau adolygu perfformiad ar waith yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Integredig, o arfarniadau personol i sicrwydd yn y Bwrdd. Amlinellir swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau mewn cysylltiad â pherfformiad yn glir hefyd, ac mae'r Aelodau Annibynnol wedi derbyn hyn yn dda.

77 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn parhau i ddarparu trosolwg da o berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â mesurau cyflawni cenedlaethol, blaenoriaethau gweinidogol, a mesurau ansawdd a diogelwch lleol. Gellir darllen yr adroddiad yn glir ac mae'n caniatáu i faterion perfformiad gael eu hadnabod yn rhwydd. Mae adran gryno a dangosfwrdd 'Heriau Perfformiad sydd wedi eu Huwchgyfeirio' ar ddechrau'r adroddiad sy'n caniatáu i eithriadau gael eu hadrodd a thrafodaeth fwy penodol ar feysydd sy'n peri pryder.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu trosglwyddo ei adroddiadau perfformiad i Power BI ac mae'n gweithio'n weithredol gyda chyrff iechyd eraill er mwyn dysgu o'u profiadau. Y nod yw i'r fformat digidol hwn gynnwys cynnydd gwirioneddol o'i gymharu â chynlluniau, ac integreiddio data cyllid a thueddiadau. Mae tystiolaeth bod rhywfaint o wybodaeth meincnodi yn cael ei defnyddio i ychwanegu cyd-destun at feysydd megis cynllunio strategol. Mae hyn mewn ymateb i Aelodau Annibynnol yn mynegi awydd i gael mwy o ddata a gwybodaeth meincnodi sydd ar gael er mwyn deall sut mae gwybodaeth yn berthnasol i boblogaeth Powys.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

79 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau corfforaethol ar waith sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ofynion o dan Ddeddf newydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020);
- fframwaith (neu debyg) ar waith sy'n cefnogi gwaith llywodraethu ansawdd effeithiol;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

80 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith er mwyn goruchwylio'r broses o weithredu'r dyletswyddau newydd a pharhau i oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch, ond bod angen iddo sicrhau ei fod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Gweithredu y Fframwaith Ansawdd Clinigol mewn modd amserol**.

81 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd a nodir yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020) newydd. Mae hyfforddiant cynhwysfawr wedi ei ddarparu i'r Bwrdd ynghylch Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd, gan gynnwys sesiynau Datblygu'r Bwrdd a diwrnodau i ffwrdd sefydliadol. Mae gan y Bwrdd Iechyd dudalen gwe pwrpasol ar gyfer Dyletswydd Ansawdd. Sefydlwyd grŵp gweithredu a darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yn nodi'r cynnydd a wnaed ac unrhyw heriau cysylltiedig.

82 Datblygodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Ansawdd Clinigol yn 2020 sy'n cyd-fynd â chynllun gweithredu. Mae Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o'i gymharu â'r cynllun gweithredu. Mae'r diweddariad diweddaraf yn dangos llawer o feysydd y gwnaed cynnydd ynddynt gan gynnwys gweithredu polisi diwygiedig 'Gweithio i Wella'. Fodd bynnag, mae mwy o waith o hyd mewn sawl maes, megis adnewyddu fframwaith profiad y claf, arweinyddiaeth glinigol mewn prosiectau gwella ansawdd, a meincnodi. Fodd bynnag, ni fu diweddariad arall ar gynllun gweithredu Fframwaith Ansawdd Clinigol 2020–2023 i Bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch ers mis Medi 2022. Bydd angen diweddariadau mwy rheolaidd ar y pwyllgor i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn goruchwylio cynnydd y cynllun gweithredu yn ddigonol **(Argymhelliad 6)**.

83 Mae'r Adroddiad Ansawdd Integredig i Bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o ansawdd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwynion, pryderon ac adolygiadau marwolaethau. Hefyd, mae diweddariad cynhwysfawr ar y cynllun archwilio clinigol a gyflwynir i'r pwyllgor.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

84 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion archwilio ac adolygu eraill mewn modd amserol.

85 Canfuom fod **y trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion yn dda ar y cyfan er bod angen i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg oruchwylio'r adroddiad olrhain yn fwy rheolaidd**.

86 Ar y cyfan, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu. Rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd rhesymol ar olrhain Argymhellion Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2023.

87 Mae adroddiad diweddaru cynhwysfawr yn nodi'r cynnydd o'i gymharu ag argymhellion sy'n ymwneud ag archwilio mewnol ac allanol, a dylid cyflwyno adroddiad gwrth-dwyll i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer yr argymhellion a weithredwyd a'r rhai sy'n hwyr. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ers mis Mawrth 2023. Mae hyn oherwydd materion amserlennu i ddarparu ar gyfer nifer o Adroddiadau Archwilio Mewnol ar yr agenda. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r mater amserlennu hwn, ond mae angen iddo sicrhau ei fod yn goruchwylio'r gwaith olrhain argymhellion yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ddigonol ac ar adegau priodol. (**Argymhelliad 7**).

# Dull cynllunio corfforaethol

88 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

89 Canfuom, **er bod trefniadau cynllunio corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn dda, nad yw wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy**.

## Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

90 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- strategaeth clinigol hirdymor priodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd;

- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

91 Canfuom, **er nad oedd yn gallu cyflwyno cynllun cytbwys, fod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o ddatblygu ei gynlluniau**.

92 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflawni ei strategaeth deng mlynedd a ddefnyddiwyd i bennu'r fframwaith ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023–2026, ynghyd ag Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Asesiad Lles Powys. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y byddai'r strategaeth ddeng mlynedd yn elwa o gael ei diweddaru mewn ymateb i'r amgylchedd newidiol ac i adlewyrchu pwysau ariannol.

93 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull cynllunio. Cyn cael ei adrodd yn y Bwrdd, cyflwynwyd Dull Cynllunio Integredig, Fframwaith a Pharamedrau 2023–2026 i'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth ym mis Tachwedd 2022. Roedd hyn yn darparu llinell amser clir i lunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023–2026 a'r negeseuon allweddol o strategaethau perthnasol i lywio'r broses gynllunio. Mae hon yn ddogfen defnyddiol a hygyrch a oedd yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion Powys, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i heriau'r gweithlu ac ystadau, a'r sefyllfa ariannol.

94 Gwnaed llawer o gynnydd o ran cynyddu cyfranogiad Aelodau Annibynnol yn y broses o lunio cynlluniau a strategaethau. Defnyddiwyd sesiynau datblygu'r Bwrdd i rannu canfyddiadau dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau[4] a wnaed yn rhan o'r broses gynllunio, yn ogystal â mewnwelediadau allweddol o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Asesiad Lles Powys. Hefyd, bu cyflwyniad manwl diweddaredig i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2023 yn amlinellu diben, dull a chamau nesaf y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac ystyriwyd iteriadau drafft y cynllun yn sesiynau Datblygu'r Bwrdd (gweler **Atodiad 2 A1 2022**). Mae sesiynau Bwrdd y Dyfodol yn cynnwys pwyslais ar Amcanion Strategol ar gyfer 2024–2029 a Chynllun Strategol 2024–2029.

95 Fodd bynnag, er gwaethaf y trefniadau hyn, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023–2026 oherwydd y diffyg ariannol arfaethedig. Yn hytrach, cymeradwywyd Cynllun Integredig drafft ar gyfer 2023–2026 yn y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 a chymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cyflawni Blynyddol tanategol ar gyfer 2023–24 ym mis Mai 2023, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ym mis Gorffennaf 2023.

96 Cymeradwywyd y Fframwaith Digidol Strategol yng nghyfarfod Gorffennaf 2023 y Bwrdd hefyd yn dilyn sesiynau Datblygu'r Bwrdd ym mis Hydref 2022 a mis

[4] Nid yw'r troednodyn hwn yn berthnasol i'r fersiwn Gymraeg o'r ddogfen.

Mehefin 2023. Mae'r Fframwaith yn cefnogi uchelgais 'Digidol yn Gyntaf' y Bwrdd Iechyd a nodir yn ei strategaeth ddeng mlynedd.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

97 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig[5], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

98 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith o hyd i fonitro'r broses o gyflawni ei gynlluniau a'i strategaethau**.

99 Mae Cynllun Integredig 2023–2026 yn pennu blaenoriaethau strategol a meysydd cyflawni allweddol y neilltuwyd amserlen chwarterol ar eu cyfer. Fe'i cefnogir gan y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol hyn a'r camau allweddol ond nid yw'r chwarter gweithredu na'r cyflawniad disgwyliedig ganddo, a fyddai'n ddefnyddiol. Mae angen cysylltiad clir rhwng 'Canlyniadau Powys' yng Nghynllun Integredig 2023–2026 a'r modd y mae'r rhain yn cael eu trosi'n effeithiau mesuradwy yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (gweler **Atodiad 2 A2 2022**).

100 Caiff y cynnydd o ran cyflawni, o'i gymharu â phob un o'r blaenoriaethau, ei adrodd fesul chwarter i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformio, a'r Bwrdd drwy Adroddiadau Cynnydd 2023–24 y Cynllun Integredig Chwarterol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi pryd y gall y Bwrdd ddisgwyl i'r camau a'r cynlluniau gael eu cyflawni, y swyddogion sy'n gyfrifol, a'r llwybr y gall ddisgwyl cael sicrwydd priodol drwyddo. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys asesiad o'r hyder y byddant wedi eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn, a nodir yn Uchel, yn Ganolig neu'n Isel. Mae hwn yn ddangosydd enwedig o ddefnyddiol oherwydd ei fod yn darparu safbwynt gan y sefydliad ar ei allu i'w cyflawni.

101 Mae Adroddiadau Cynnydd adnewyddedig y Cynllun Integredig Chwarterol yn fwy eglur ynghylch y perfformiad o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiadau'n haws eu darllen, sy'n ei gwneud yn haws olrhain cynnydd carreg milltir allweddol, a gwneud mwy o ddefnydd o ddata yn yr adrannau sylwebaeth o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

[5] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

102 Cynhelir y cynnydd o'i gymharu â chyflawni'r Fframwaith Digidol Strategol drwy ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformio yn chwemisol, ac â'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarperir i'r Bwrdd yn flynyddol.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

103 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

104 Canfuom, **er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli a monitro ei gyllid, fod ei sefyllfa ariannol yn fwyfwy heriol**.

## Amcanion ariannol

105 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022–23, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020–21 a 2022–23; a
- bod ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2023–24.

106 Canfuom **nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022–23 ac mae'n rhagweld y bydd yn methu eu bodloni eto yn 2023–24**.

107 Er iddo gyflwyno cynllun sy'n gytbwys yn ariannol, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022–23. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £7.0 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, a diffyg cronnus o £6.8 miliwn ar gyfer y cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020–23. Adroddodd y Bwrdd Iechyd warged fach o £68,000 o'i chymharu â'i derfyn adnoddau cyfalaf.

108 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflwyno cynllun sy'n gytbwys yn ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2023–2026 ac yn lle hynny mae'n gweithio'n unol â Chynllun Blynyddol sy'n nodi diffyg disgwyliedig o £33.4 miliwn ar gyfer 2023–24. Fel blynyddoedd blaenorol, costau Gofal Iechyd Parhaus, costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a gomisiynir (yn enwedig gan ddarparwyr yn Lloegr), a chostau cyflog amrywiol yn enwedig mewn cysylltiad â gwariant ar asiantaethau yn y gwasanaethau iechyd meddwl yw'r meysydd pwysau o hyd. Ers mis Ebrill 2022, mae pwysau costau cynyddol sy'n deillio o ragnodi gofal sylfaenol hefyd. Priodolwyd y cynnydd mewn costau i chwyddiant uwch a chynnydd mewn gweithgareddau rhagnodi.

109 Ym Mis 7, dyrannodd Llywodraeth Cymru £18.3 miliwn ychwanegol i wrthbwyso rhywfaint o bwysau costau y Bwrdd Iechyd. Adolygodd y Bwrdd Iechyd ei ddiffyg a ragwelir i £15.2 miliwn, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfanswm rheoli diffyg diwygiedig o £12 miliwn i'r Bwrdd Iechyd i'w gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Ym Mis 10, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn

cyflawni ei gyfanswm rheoli ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhagweld y bydd yn parhau i fod o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf o £3.7 miliwn.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

110 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.

111 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio ariannol cadarn**.

112 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer datblygu ei gynllun ariannol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae aelodau'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n dda â datblygiad y cynllun, ac roedd y Bwrdd yn ymwneud yn llawn â'r broses o graffu ar y cynllun cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

113 Mae angen targed arbedion o £7.5 miliwn ar y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddiffyg y cytunwyd arno. Ym Mis 10, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau arbed posibl sy'n werth cyfanswm o £11.5 miliwn. Fodd bynnag, roedd y broses o gyflawni arbedion £2.2 miliwn o flaen y proffil. Nodir y cynllun arbedion manwl yn y cynllun ariannol. Mae cynlluniau arbedion wedi eu datblygu ac mae'r timau gweithredol a chyllid yn derbyn cyfrifoldeb drostynt ar y cyd. Hefyd, bu cydweithrediad o'r newydd gyda'r tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd angen newid trawsffurfiol gan rai gwasanaethau i gyflawni'r arbedion. Mae cyfran sylweddol o arbedion a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn rhai cylchol, er bod effaith y flwyddyn gyfan yn methu â chyflawni'r gofyniad o £7.5 miliwn, ar £5.8 miliwn.

114 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau eraill ar ddull y Bwrdd Iechyd o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn ei adrodd yn gynnar yn 2024.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

115 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;

- y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy’n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy’n galluogi’r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol; ac
- a gafodd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022–23 eu cyflwyno’n brydlon, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

116 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol**.

117 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ag offerynnau statudol, ac i adrodd toriadau. Fel y sonnir ym **mharagraff 33**, mae’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo wedi eu hadolygu a’u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i graffu yn rheolaidd ar nifer y Camau Gweithredu Tendr Sengl, y colledion a’r taliadau arbennig. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i fod â threfniad gwrth-dwyll rhagweithiol, a darperir yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

118 Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o’i sbardunau cost, ac mae rheolaethau ar waith i reoli’r sefyllfa ariannol. Gan mai hyn yw maes gwariant mwyaf y Bwrdd Iechyd, mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei waith craffu ar wasanaethau a gomisiynir. Cynhelir cyfarfodydd misol gyda darparwyr ac mae’r timau cyllid yn sicrhau bod y prosesau ariannol yn gadarn. Hefyd, cyflwynir adroddiadau manwl i’r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformio a’r Pwyllgor Gweithredol, gan nodi gwaith i leihau a mynd i’r afael â heriau gyda chyflog amrywiol, rheoli a rhagnodi meddyginiaethau, a Gofal Iechyd Parhaus.

119 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da yn unol â’r amserlen ofynnol. Ni nododd ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ond nodwyd rhai meysydd lle dylid gwneud cywiriadau. Hefyd, gwnaeth ein harchwiliad un argymhelliad mewn cysylltiad â’r swm sy’n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaethom gyhoeddi barn ddiamod mewn cysylltiad â gwirionedd a thegwch y cyfrifon, ond barn rheoleiddio amodol oherwydd bod y Bwrdd Iechyd yn torri ei ddyletswydd i fantoli’r cyfrifon yn ystod cyfnod treigl tair blynedd 2020–23.

## Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

120 Gwnaethom ystyried a yw’r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu’n briodol ar y perfformiad ariannol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r Bwrdd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â’r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru;
- craffu’n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.

121 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol hefyd, a bod adroddiadau cynhwysfawr ar waith sy'n caniatáu i heriau a risgiau gael eu hadnabod yn rhwydd**.

122 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod ag adroddiadau ariannol cynhwysfawr a chlir sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformio. Gwnaed gwaith i fyfyrio'n barhaus ar gynllun a chyflwyniad yr adroddiadau er mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu trosglwyddo a bod risgiau allweddol yn cael eu nodi. Mae'r adroddiadau hyn wedi eu derbyn yn dda ac yn cefnogi gwaith craffu a her effeithiol gan yr aelodau. Mae'r adroddiadau ariannol yn nodi trosolwg clir o'r refeniw, y sefyllfa a ragwelir, y perfformiad o'i gymharu â'r arbedion gofynnol, y gwariant cyfalaf, ac maent yn cynnwys y ffurflenni monitro misol. Darperir gwybodaeth fanwl am feysydd pwysau ariannol allweddol hefyd, a chynhwysir gwariant ar asiantaethau hefyd yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig arferol i'r Bwrdd.

123 Cynhwysir y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun ariannol ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd, ac mae'r risg wedi cynyddu ers i'r Bwrdd Iechyd adrodd ar sefyllfa o ddiffyg a ragwelir ar gyfer 2022–23. Rhennir y risg corfforaethol ariannol yn ddwy is-adran, un agwedd ar gyfer methu â rheoli ei adnoddau ariannol yn unol â gofynion statudol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, a'r llall ar gyfer y tymor canolig. Mae hyn yn ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi lle i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar y cynllunio ariannol tymor byrrach a thymor hwy.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;<br>• Pwyllgor Cyflawni a Pherfformio;<br>• Y Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch;<br>• Y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth;<br>• Y Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Y Cadeirydd;<br>• Y Prif Swyddog Gweithredol Interim;<br>• Y Dirprwy Brif Weithredwr Interim a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, TG a Gwasanaethau Gwybodaeth.<br>• Y Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu Interim;<br>• Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;<br>• Yr Is-gadeirydd |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed o’i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol

**Mae Arddangosiad 3** isod yn nodi’r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| Argymhelliad | | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|---|
| A1 | Mae cyfleoedd i ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol yng nghamau cynnar y broses o gynllunio’r Cynllun Tymor Canolig Integredig er mwyn galluogi’r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswydd o bennu cyfeiriad strategol y sefydliad yn llawn. Dylai’r Bwrdd Iechyd roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau cyfranogiad priodol gan Aelodau Annibynnol ym mhob cam cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig. | Cwblhawyd—gweler paragraff 94 |
| A2 | Mae’r adroddiadau cyflawni ar gyfer monitro’r cynnydd o’i gymharu â’r blaenoriaethau a’r camau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn draethiadol i raddau helaeth, ac mae diffyg pwyslais ar fesurau ac effaith ynddynt. Dylai’r Bwrdd Iechyd ailedrych ar ei adroddiadau cyflawni i sicrhau eu bod yn gryno, yn llai traethiadol, a’u bod yn canolbwyntio’n fwy ar fesurau ac effaith. | Ar y gweill—gweler paragraff 99 |

| Argymhelliad | | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A3 | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diweddaredig sy'n mapio'r holl gyfleoedd a'r risgiau i gyflawni amcanion strategol, sy'n nodi bylchau mewn sicrwydd, ac sy'n hysbysu cynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. | Ar y gweill—gweler paragraff 64 |
| A4 | Mae datgysylltiad ar hyn o bryd rhwng cofrestrau risgiau y gyfarwyddiaeth a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl risgiau uchel ar gofrestrau risgiau y gyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau bod y rhai perthnasol yn cael eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a bod y Bwrdd yn ymwybodol o'r risgiau ehangach a allai ddod i'r amlwg. | Ar y gweill—gweler paragraff 73 |
| A5 | Mae cyfleoedd i wella gallu'r cyhoedd i gael gafael ar ddogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau: | |
| | a) fod polisïau a gweithdrefnau, a'r gofrestr fuddiannau sydd ar y wefan gyhoeddus yn hygyrch; a | Dim camau gweithredu—gweler paragraff 34 |
| | b) fod y fersiwn ddiweddaraf sydd wedi ei chymeradwyo o'r dogfennau allweddol ar y wefan gyhoeddus, gan gynnwys Rheolau Sefydlog. | Cwblhawyd—gweler paragraff 33 |

| Argymhelliad | | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|---|
| A6 | Nid oes unrhyw ddulliau i Gadeiryddion pwyllgorau gwrdd yn ffurfiol y tu allan i gyfarfodydd pwyllgorau er mwyn rhannu pryderon ac arferion da, ac nid oes unrhyw ddulliau ar waith i olrhain materion a chamau gweithredu sydd wedi eu cyfeirio rhwng pwyllgorau ychwaith. Dylai’r Bwrdd Iechyd roi dulliau ar waith i alluogi: | |
| | a) cadeiryddion pwyllgor i ddod at ei gilydd yn rheolaidd; a | Cwblhawyd—gweler paragraff 39 |
| | b) materion a chamau gweithredu a gyfeirir rhwng pwyllgorau i gael eu holrhain, gan ddarparu sylwadau ar ôl eu cwblhau. | Ar y gweill—gweler paragraff 39 |
| A7 | Nid yw’r Bwrdd a’i bwyllgorau yn gwrando ar y staff, ac nid yw teithiau cerdded y Bwrdd wedi eu hadfer ers y pandemig. Dylai’r Bwrdd Iechyd gynyddu cyfleoedd i aelodau’r Bwrdd wrando ar y staff. Dylai hyn gynnwys defnyddio straeon staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, ac adfer teithiau cerdded y Bwrdd ar frys. | Cwblhawyd—gweler paragraffau 50 i 51 |
| A8 | Er gwaethaf gofynion y Rheolau Sefydlog, mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i fod heb Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Dylai’r Bwrdd Iechyd sefydlu’r ddau grŵp ar frys. | Caewyd—gweler paragraff 33 |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| A9 Mae cyfleoedd i wella hunanadolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd a’r pwyllgorau. Dylai’r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu cipio a’u monitro drwy gynllun gweithredu;<br>b) cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor er mwyn caniatáu adolygiad o’r cyfarfod. | <br><br>Dim camau gweithredu—gweler paragraff 59<br>Ar y gweill—gweler paragraff 59 |
| A10 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cynnal sawl swydd interim lefel uwch a all achosi ansefydlogrwydd i wasanaethau a’r staff. Dylai’r Bwrdd Iechyd geisio penodi staff parhaol i’r swyddi interim yn y tîm Gweithredol, cyn gynted ag y bo hynny’n ymarferol. | Ar y gweill—gweler paragraffau 56 i 57 |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio**

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Tryloywder busnes y Bwrdd**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>1.1. hyrwyddo holl gyfarfodydd y Bwrdd a digwyddiadau eraill, megis y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd a dulliau cyfathrebu eraill. | **Derbynnir argymhelliad 1.1**<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol ac mae eisoes yn defnyddio dulliau gan gynnwys ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o ystyried natur cyfarfod cyhoeddus y digwyddiad. Bydd cyfarfodydd eraill y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn parhau i fod ar gael drwy'r wefan a thrwy ddulliau perthnasol eraill, gan gynnwys sesiynau cyfarwyddo cyhoeddus a dulliau cyfathrebu eraill o | Amh. | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|
| 1.2. sicrhau bod cofnodion nad ydynt wedi eu cadarnhau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl cyfarfodydd er mwyn hybu tryloywder mwy amserol i fusnes y Bwrdd Iechyd. | ymgysylltu â'r cyhoedd. Nid ydym o'r farn mai'r cyfryngau cymdeithasol yw'r sianel mwyaf effeithiol ar gyfer hyrwyddo cyfarfodydd fel y rhain.<br>**Cydnabyddir argymhelliad 1.2 ond nis derbynnir.**<br>Cofnodion nad ydynt wedi eu cadarnhau—rydym yn cydnabod yr arferion da sydd ynghlwm â'r argymhelliad hwn. Nid oes gennym adnoddau ar gael i gyflawni'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd, ond byddwn yn adolygu hyn eto maes o law. Yn y cyfamser, bydd fideos o gyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i fod ar gael drwy gael eu ffrydio'n fyw ar y wefan a bydd crynodebau o bob cyfarfod Pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r cyfarfod Bwrdd nesaf sydd ar gael—dau fis ar wahân ar y mwyaf. | | |

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion, defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno straeon cleifion i Bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch er mwyn galluogi sbectrwm ehangach o brofiadau cadarnhaol a negyddol i gael eu clywed. | **Derbynnir yr argymhelliad.**<br><br>Bydd amserlen straeon cleifion yn cael ei chynllunio, gan ei chysoni ag eitemau allweddol ar yr agenda (pan fo hynny'n bosibl) o fis Ebrill 2024. | O fis Ebrill 2024 ymlaen | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **Teithiau Cerdded y Bwrdd**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau teithiau cerdded y bwrdd drwy:<br>3.1. ddatblygu blaenraglen sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ac sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau y Bwrdd Iechyd; | **Derbynnir yr argymhellion**<br><br>Mae'r rhaglen ar waith ar gyfer y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol, ac mae hyn yn cael ei ehangu i gynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae dull cydlynu ar waith hefyd. | Mai 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|
| 3.2. datblygu fframwaith sy'n nodi sut y dylai'r teithiau cerdded weithredu, a'r dulliau ar gyfer adrodd themâu allweddol. | Bydd fframwaith yn cael ei ddatblygu y gellir ei ddefnyddio a'i adrodd i Bwyllgor Profiad y Claf ac Ansawdd a'r Pwyllgor Gweithlu. Mae'r Pwyllgorau hyn yn y broses o gynnal cyd-bwyllgorau a bydd hyn yn gyfle i gipio negeseuon allweddol oddi wrth gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r staff. | Mai 2024 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth/Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| **Effeithiolrwydd y pwyllgorau**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal ei adolygiadau effeithiolrwydd pwyllgorau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus yn y ffordd y mae'r pwyllgorau'n gweithredu. | **Derbynnir yr argymhelliad**<br><br>Ar adeg ysgrifennu'r asesiad hwn, mae tri adolygiad Pwyllgor wedi eu cwblhau. Mae'r lleill wedi eu trefnu a byddant yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ym mis Mai 2024. | 30 Mai 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu'r cyflymder y mae risgiau a gofnodir ar daenlenni ar hyn o bryd yn cael eu symud drosodd i fodiwl risg Datix. | **Derbynnir yr argymhelliad**<br><br>Mae system RL Datix yn cael ei threialu ar hyn o bryd ac mae'r broses o recriwtio staff ar y gweill i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r prosiect. Bydd cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn llawn yn cael ei ddatblygu. | 30 Medi 2024 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| **Argymhelliad** | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau**<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â Chynllun Gweithredu Fframwaith Ansawdd Clinigol 2020–23 yn amserol drwy gydol y flwyddyn. | **Derbynnir yr argymhelliad**<br><br>Bydd y Fframwaith Ansawdd Clinigol yn cael ei ddiwygio gan fod ei ddyddiad wedi dod i ben. Bydd hyn yn gam allweddol ar gyfer Blwyddyn 2 yng Nghynllun Gweithredu y Ddyletswydd Ansawdd. Gallai hyn arwain at ddull gwahanol, o ystyried aeddfedrwydd y Fframwaith Perfformiad Integredig (sy'n gyson â'r Ddyletswydd Ansawdd). Bydd y cynnydd a'r cynllun i fynd i'r afael â hyn yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Profiad y Claf ac Ansawdd ym mis Gorffennaf 2024. | 30 Gorffennaf 2024 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **Dull corfforaethol o olrhain argymhellion**<br>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael yr olrheiniwr argymhellion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. | **Derbynnir a chwblhawyd yr argymhelliad**<br><br>Bydd yr olrheiniwr yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Mai, Medi ac Ionawr, bob blwyddyn. Ychwanegwyd yr amserlen at flaengynllun y Pwyllgor. | Cwblhawyd | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.